*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 21(3) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

---

# 2025 Rhif (Cy. )

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

# Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Weips Gwlyb) (Cymru) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 ("y Ddeddf"). Fe'u gwneir o dan bwerau a roddir gan adran 3(1)(a), (b) ac (c) o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 2 yn ychwanegu "weips gwlyb" at y rhestr o gynhyrchion plastig untro gwaharddedig yng ngholofn 1 o'r tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen i'r Ddeddf. Mae'r diwygiad hwn yn gwneud weip wlyb sy'n bodloni'r diffiniad o gynnyrch plastig untro yn gynnyrch plastig untro gwaharddedig at ddibenion y Ddeddf.

Mae rheoliad 2 hefyd yn darparu ar gyfer esemptiad i'r gwaharddiad, drwy ddiwygio colofn 2 o'r tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen i'r Ddeddf. Mae'r esemptiad yn gymwys i weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig sydd wedi eu dylunio neu eu gweithgynhyrchu i'w defnyddio mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth feddygol.

Mae rheoliad 3 yn ychwanegu'r diffiniadau o "weip wlyb", "meddygol" a "triniaeth" at baragraff 2 o'r Atodlen i'r Ddeddf, at ddiben y tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau

hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 21(3) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

---

# 2025 Rhif (Cy. )

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Weips Gwlyb) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *18 Rhagfyr 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 3(1)(a), (b) ac (c) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 ("y Ddeddf")(**1**).

Cyn gwneud y Rheoliadau hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'r gofynion ymgynghori yn unol ag adran 3(2) o'r Ddeddf.

Wrth ystyried pa un ai i arfer y pŵer yn adran 3 o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'u dyletswydd o dan adran 4(1) o'r Ddeddf.

Yn unol ag adran 21(3) o'r Ddeddf, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi, dod i rym a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Weips Gwlyb) (Cymru) 2025.

---

(**1**) 2023 dsc 2

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 18 Rhagfyr 2026.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023.

**Diwygio paragraff 1 o'r Atodlen i'r Ddeddf**

**2.**—(1) Diwygir y tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen (cynhyrchion plastig untro gwaharddedig) i'r Ddeddf fel a ganlyn.

(2) O dan y pennawd "cynhyrchion eraill", ar ôl y cofnod ar gyfer "ffyn cotwm" mewnosoder—

| | |
|---|---|
| "Weips gwlyb | *Esemptiad 1*<br>Mewn cysylltiad â chyflenwi, neu gynnig cyflenwi, weip wlyb a ddyluniwyd neu a weithgynhyrchwyd i'w defnyddio mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth feddygol." |

**Diwygio paragraff 2 o'r Atodlen i'r Ddeddf**

**3.** Yn y mannau priodol ym mharagraff 2 o'r Atodlen i'r Ddeddf mewnosoder—

"mae "meddygol" ("*medical*") yn cynnwys llawfeddygol;";

"mae "triniaeth" ("*treatment*") yn cynnwys diagnosis;";

"ystyr "weip wlyb" ("*wet wipe*") yw darn o ffabrig anweedig sydd wedi ei ragwlychu."

*Enw*
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad